Crynodeb Gweithredol

Cyflawni Cydraddoldeb Hiliol

yng

Ngwasanaeth Tân ac
Achub De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Codi Ymwybyddiaeth - Lleihau Perygl

Mae'r crynodeb hwn yn cynnig trosolwg o'r cynnydd rydym wedi ei wneud ers 2002 i gyflawni cydraddoldeb hiliol, mewn perthynas â'n swyddogaethau allanol (rhoi gwasanaeth) a mewnol (polisi a gweithdrefn) ac yn gosod ein holl amcanion cydraddoldeb hiliol ar gyfer 2005 - 2008.

I weld ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol yn ei gyfanrwydd ewch i www.southwales-fire.gov.uk

DATGANIAD

Nod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw hyrwyddo cydraddoldeb yn ei holl weithrediadau, i ddathlu amrywiaeth ymhlith ei staff a'r gymuned mae'n ei wasanaethu, drwy hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd, rhwystro gwahaniaethu anghyfreithlon a thrwy hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl.

CEFNDIR

Yn 2000 gwnaethpwyd newidiadau i Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 yn dilyn ymchwiliad a drefnwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref ynghylch ymholiadau i lofruddiaeth Stephen Lawrence. Gosododd y Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol (2000) ddyletswydd gyffredinol ar y Gwasanaeth i 'roi sylw priodol i'r angen' am:

- Ddileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon
- Hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd; a
- Hyrwyddo perthnasoedd da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol

Hefyd mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau penodol sy'n galluogi'r Gwasanaeth i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol, hynny yw trefniadau ar gyfer

- Asesu, ymgynghori ar, a monitro ei swyddogaethau
- Sicrhau mynediad ar gyfer y cyhoedd i'r wybodaeth a'r gwasanaethau mae'n eu darparu, a
- Hyfforddi gweithwyr

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gymell i'r gofynion a osodwyd gan y Ddyletswydd Cyflogaeth i fonitro ar sail grŵp ethnig, ac i gyhoeddi'n flynyddol niferoedd

- Y staff mewn swyddi
- Ymgeiswyr ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant a dyrchafiad, o bob grŵp cyffelyb
- Staff sy'n derbyn hyfforddiant
- Staff sydd ar eu hennill neu golled o ganlyniad i weithdrefnau asesu perfformiad gwan
- staff yn ymglymedig i weithdrefnau cwyno
- staff sy'n darostyngedig o gweithdrefnau disgyblu
- staff sy'n gorffen gwaith

CYNLLUN CYDRADDOLDEB HILIOL

Yn 2002, o ganlyniad i drafodaethau mewnol ac ymgynghoriadau allanol ynglŷn â'n harferion gwaith a sut y gallem wella ein gwasanaeth er mwyn bodloni anghenion amrywiol De Cymru, cynhyrchwyd Cynllun Cydraddoldeb Hiliol dros dair blynedd, yn gosod allan y modd y byddai'n datblygu ac yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

Yn 2005 roedd yn ofynnol i ni adolygu ein perfformiad wrth gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb hiliol ac i adolygu asesiad y swyddogaethau a'r polisïau hynny, neu'r polisïau a fwriadwyd ac oedd yn berthnasol i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

Nodwyd y swyddogaethau canlynol fel rhai perthnasol i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol:

- Tân ac Achub
- Diogelwch yn y Gymuned
- Diogelwch rhag Tân
- Cyflogaeth
- Caffael
- Hyfforddi a Datblygu

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol diwygiedig 2005 - 2008 yn gosod allan yr uchod, ynghyd ag amlygu rhai o'r llwyddiannau a rhai o'r heriau a wynebwyd wrth i ni gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb hiliol. Mae'r Cynllun diwygiedig yn amlygu rhai o'r gwersi a ddysgwyd ac yn gosod 10 amcan realistig a chyraeddadwy ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd y rhain yn cael yr effaith fwyaf ar gyflawni canlyniadau cydraddoldeb hiliol y Gwasanaeth.

CYRAEDDIADAU

- Datblygwyd camau i weithredu'n gadarnhaol er mwyn denu pobl o gymunedau lleiafrifol ethnig i yrfa yn y Gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys dyddiau codi ymwybyddiaeth yng Nghaerdydd a Chasnewydd yn y Mela Indiaidd, y Deml Sikh, Gŵyl y Meindy, digwyddiadau Anondho Dhara a'r Dreftadaeth Ddu/ Black Heritage

- Cynhaliwyd dyddiau rhagflas a datblygwyd menter arbennig mewn partneriaeth â Chwarae Teg gan roi mewnwelediad i yrfa yn y Gwasanaeth i fenywod

- Mynychodd y staff hyfforddiant 'Race to Change' lle defnyddiwyd theatr fforwm i archwilio materion fel rheoli amrywiaeth a gwahaniaethu anghyfreithlon

- Mae ein holl bolisïau, gweithdrefnau a phrosiectau wedi eu sgrinio am gydraddoldeb, eu hasesu o safbwynt eu heffaith, a'u hadolygu fel nad oes yna ddrwg effaith gan unrhyw un ohonynt ar unrhyw grŵp lleiafrifol. Datblygwyd canllawiau, templedi, hyfforddiant a systemau i gynnal hwn gydol cylch adolygu'r polisi. Bydd y broses hon yn cael ei harchwilio a'i gwerthuso dros y dair blynedd nesaf

- Gwellwyd ar y peirianwaith ymgynghori drwy apwyntio swyddog cyswllt cymunedol, a sefydlodd dau grŵp ffocws yng Nghaerdydd a Chasnewydd gan gysylltu â chymunedau lleiafrifol ethnig. Datblygwyd a gweithredwyd ein strategaeth ymgynghori. Cynhaliwyd nifer o arolygon gan Opinion Research Services fel ansawdd y gwasanaeth, er mwyn llywio ymhellach waith y Gwasanaeth. Dosbarthwyd y rhain fesul tarddiad ethnig fel y gellir nodi unrhyw batrymau

- Datblygwyd llenyddiaeth ac adnoddau Diogelwch rhag Tân mewn ieithoedd lleiafrifol priodol a datblygwyd byrddau stori Rachel a Rashida ar gyfer addysg diogelwch yn y gymuned mewn ysgolion
- Derbyniodd tua 420 o staff sy'n gweithio yn y gymuned hyfforddiant ar ymwybyddiaeth

HERIAU

- Mapiwyd data cyfrifiad cenedlaethol am ddigwyddiadau tân drwy ddefnyddio GIS er mwyn targedu diogelwch rhag tân, ond nid oedd y wybodaeth yn gywir
- Nodwyd gwahaniaethau rhwng gofynion monitro (Ffurflenni Adnoddau Dynol, HRFs) a osodwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a deddfwriaeth cydraddoldeb hiliol
- Roedd angen gwella'r peirianwaith gyhoeddi er mwyn sicrhau atebolrwydd i'r cyhoedd
- Roedd angen datblygu a gweithredu strategaeth yr hyfforddiant ar gydraddoldeb ar draws y gwasanaeth
- Nid oedd data ynglŷn â monitro Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd ar gael

EIN 10 BLAENORIAETH NEWYDD

- Mae pob gweithiwr, darparwyr gwasanaeth, contractwyr a sefydliadau sy'n dod i gysylltiad â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymwybodol o'i ymroddiad i gydraddoldeb hiliol, ei bolisi, cynllun a'i gynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol
- Gwella cyd-drefniant, datblygu, gweithredu ac adolygu ein hamcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth a chyhoeddi ein cynnydd

- Gweithredu strategaeth ymgynghori'r Gwasanaeth a chydlynu a chynllunio ar draws y Gwasanaeth.

- Gwella peirianwaith monitro a chasglu data er mwyn cael llywio ymhellach ddatblygu polisi a gweithredu'r gwasanaeth

- Defnyddio cyflenwyr sy'n rhannu ein gwerthoedd a'n hymroddiad dros gydraddoldeb hiliol ac sy'n bodloni'r ddyletswydd gyffredinol

- er mwyn sicrhau bod ein gweithlu yn cynrychioli'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu, gwerthuso ein mentrau a'n prosesau ar gyfer denu pobl o gefndir lleiafrifol ethnig i weithio gyda'r Gwasanaeth Tân

- Datblygu, gweithredu a gwerthuso cydraddoldeb ac hyfforddiant ar strategaeth amrywiaeth, gwerthuso hyfforddiant a gwblhawyd er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o gydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n berthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau a'u bod yn hyderus i drosglwyddo'r wybodaeth yn y gweithle

- Rhoddir gwybod i'r staff am eu hawliau a'u cyfrifoldebau o safbwynt cydraddoldeb hiliol ac mae ganddynt yr hawl i herio ymddygiad gwahaniaethol

- Ar y cychwyn roedd cynnydd yn y nifer o gwynion mewnol a nodwyd ar sail cydraddoldeb a'r canlyniad oedd gostyngiad yn y nifer o gwynion ac ymchwiliadau ffurfiol yn y tymor hir

- Sicrhau bod holl bolisïau, gweithdrefnau, penderfyniadau a mentrau wedi eu hasesu o safbwynt yr effaith ar gydraddoldeb

Cyflwynodd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymreig eu Cynlluniau diwygiedig i'r Comisiwn ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru yng Ngwanwyn 2005. Derbyniodd pob Gwasanaeth adborth oddi wrth y Comisiwn ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol a'u cyfarfod ar nifer o achlysuron rhwng Mehefin a Hydref 2005. Canlyniad y cyfarfodydd hyn oedd sefydlu amcanion cydraddoldeb ledled Cymru.

CASGLIAD

I gloi mae ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol 2005-2008 yn gosod allan ein cynnydd hyd yn hyn, gwersi a ddysgwyd a blaenoriaethau newydd. Mae'n amlygu ein llwyddiannau a'r heriau yr ydym wedi gwynebu. Yn dilyn y trafodaethau gyda Phwyllgor Cydraddoldeb Hiliol Cymru teimlwn yn hyderus mai drwy gydweithio gyda'n gilydd gallwn wneud cynnydd arwyddocaol drwy ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau a bod ein Cynllun diwygiedig yn bodloni'r gofynion a osodwyd yn Neddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000.

CYSYLLTIADAU

Am fwy o wybodaeth neu i ofyn am gopi o'r Cynllun neu Grynodeb Gweithredu mewn ffurf arall cysylltwch â:

Yr Uned Amrywiaeth
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Neuadd Lanelái
Pont-y-clun
CF72 9XA

v-gregory@southwales-fire.gov.uk

Am fersiwn lawn o'r Cynllun ac i weld yr Adroddiad Cynnydd Cydraddoldeb Blynyddol ewch i'n gwefan ar www.southwales-fire.gov.uk